# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam – Adroddiad Blynyddol 23/24

## Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Diben y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw myfyrio ar ac ymateb i anghenion ein cymunedau lleol yn y modd mwyaf effeithiol, a manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym, gan ddilyn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Rwy'n falch o fod yn gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam. Yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint, rwy'n cael y fraint o hyrwyddo'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol yn ein cymunedau lleol, gan weithio mewn partneriaeth â'n partneriaid statudol a chyfrannu at eu gwaith, drwy gefnogi preswylwyr Gogledd Ddwyrain Cymru.

Gan ddilyn ein cynllun lles, mae'n rhaid i ni adolygu ac addasu ein harferion gwaith yn barhaus, mewn ymateb i drafodaethau dyddiol gwirfoddolwyr a gweithwyr y gwasanaethau cyhoeddus, wrth iddynt gefnogi preswylwyr Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar y cyd yn rhoi digon o enghreifftiau ohonom yn cydweithio fel partneriaid, budd-ddeiliaid a chymunedau.

Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, credaf y dylem fod yn gwneud mwy y tu hwnt i ystafell y Bwrdd, er mwyn newid systemau a sicrhau gwelliant parhaus. Mae hyn yn cynnwys myfyrio ar a datblygu rhai o'r enghreifftiau gwych o waith amlasiantaeth effeithiol, yn ogystal â chynllunio ar gyfer a chyflwyno newid cadarnhaol lle bo angen.

Mae gennym ddwy ddeddfwriaeth arloesol yng Nghymru – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rwy'n awyddus i greu mwy o gyswllt rhwng y gwaith cynllunio, llywodraethu a darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y Ddeddf, a pharhau i weithio gyda chydweithwyr Gogledd Cymru ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn cyflawni hynny.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol.

Ann Woods

Prif Swyddog

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

## Rhai o’r Prif Benawdau

- Mae’r Bwrdd o’r farn y dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, ac mae’r ddau awdurdod lleol yn dilyn dull cydgysylltiedig o ran atal ac ymyrraeth gynnar, fel bod modd i ni nodi a mynd i’r afael â’r hyn sydd wrth wraidd anghydraddoldeb.

- Mae partneriaid y Bwrdd wedi bod yn cydweithio er mwyn sefydlu ffyrdd newydd o ymgysylltu, yn enwedig gyda phobl ifanc drwy Naratifau Cymunedol yn Sealand a Tŷ Pawb, gan ddatblygu technegau adrodd stori drwy’r digwyddiadau TEDx, sy’n canolbwyntio ar iechyd meddwl a newid hinsawdd, a gweithio gydag ysgolion drwy’r rhaglen Arweinwyr y Dyfodol.

- Datblygwyd dull system gyfan gan bartneriaid ar gyfer blaenoriaeth pwysau iach, Bwyta’n Dda a Bod yn Egnïol mewn Ysgolion ar draws Wrecsam a Sir y Fflint, gyda’r uchelgais o gynyddu nifer y plant sy’n byw o fewn tair milltir i’w hysgol sy’n cerdded, reidio sgwter neu feicio yno.

- Gan gydnabod y gall cymryd rhan mewn cyfleoedd iechyd gwyrdd wella iechyd corfforol a meddyliol, mae’r Bwrdd wedi ceisio manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd iechyd gwyrdd drwy bresgripsiynu cymdeithasol

- Mae’r rhaglen 100 Stori yn bartneriaeth dan arweiniad BIPBC, sy’n gweithio â gweithwyr proffesiynol, rhieni/ gofalwyr/ gwarcheidwaid a phobl ifanc i gasglu straeon am y broses o drosglwyddo o’r gwasanaethau Plant i’r gwasanaethau Oedolion, o ran gwasanaethau ar gyfer niwroamrywiaeth.

- Mae partneriaid y Bwrdd wedi dechrau dod yn sefydliadau sy’n Gyfeillgar i Faethu, yn unol â Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu elw o ofal cymdeithasol plant. Bydd hyn yn helpu i gefnogi’r teuluoedd maeth a’r gofalwyr cysylltiedig ar draws ein cymunedau a darparu cartrefi diogel, cynnes a chefnogol i’n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

- Dan arweiniad Prifysgol Wrecsam, mae’r partneriaid wedi cydweithio i sefydlu Prifysgol y Plant Gogledd Cymru, fel bod pob plentyn ar draws Wrecsam a Sir y Fflint yn cael cyfle i ddysgu y tu hwnt i amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

- Ynghyd â Phartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, mae’r tri bwrdd ar draws Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio’n galed i sefydlu a phrofi ffyrdd newydd o ymgysylltu â chymunedau, budd-ddeiliaid a phartneriaid, ac i sicrhau bod lleisiau anghyfarwydd yn cael eu clywed ac yn cael cyfle i lywio’r hyn rydym ni’n ei wneud.

## Cefndir

Bu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn gweithio'n agos ac effeithiol yn ystod pandemig COVID, felly bu iddynt uno fel un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2023. Mae hyn wedi caniatáu i ni barhau i arwain at yr uchafbwynt, wrth i ni ganolbwyntio ar wella lles cymunedol ar draws y ddwy sir. Mae'r Bwrdd yn hynod falch fod ei Gadeirydd cyntaf o'r Sector Gwirfoddol, gan gynrychioli'r wybodaeth, gallu ac ymrwymiad sydd gan y partner egnïol hwn i'w cynnig i'n cymunedau.

Bu i ni ddefnyddio'r dystiolaeth a'r ddealltwriaeth yn ein hasesiadau lles i lunio a chyhoeddi Cynllun lles ar gyfer yr ardal ym mis Mai 2023, fel un o ofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Wedi'i lywio gan y pedwar piler datblygiad cynaliadwy: cymdeithas, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, mae ein cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r prif feysydd sy'n peri'r angen neu'r her fwyaf i'n cymunedau a disgrifio lle gall y Bwrdd wneud y cyfraniad mwyaf, gan ychwanegu gwerth at bartneriaethau a gwasanaethau craidd presennol.

Mae ein cynllun lles yn seiliedig ar ddau amcan lles ac fel partneriaeth, rydym yn trafod sut y gallwn ymgorffori'r rhain ar y cyd ar draws ein sefydliadau:

- Datblygu cymunedau sy'n ffynnu drwy leihau anghydraddoldebau ar draws yr amgylchedd, addysg, cyflogaeth, incwm a thai.
- Gwella lles cymunedol drwy alluogi pobl o bob oed i fyw bywydau diogel, iach ac annibynnol.

## Beth rydym ni wedi'i gyflawni hyd yma?

Yna, bu i ni dreulio gweddill 2023 yn creu strwythur cadarn, fel bod modd i'r sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd ymgysylltu'n gyflymach â'u timau, er mwyn cyflawni'r camau gweithredu hynny lle gall gweithio mewn partneriaeth arwain at yr effaith mwyaf. Rydym yn gwneud hyn drwy dri Bwrdd: ein Plant a'n Pobl Ifanc, ein Cymunedau a'n Gweithleoedd. Ac yna, yr hyn sy'n allweddol er mwyn gwireddu'r hud yw bod Tîm Integreiddio yn cysoni'r Byrddau a sicrhau bod y Bwrdd yn pennu sylfaen i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur a meithrin iechyd meddwl a lles da.

A ninnau'n rhoi pwyslais ar ddatblygiad cynaliadwy, rydym yn canolbwyntio ar glywed y cymysgedd cyfoethog o leisiau ar draws ein cymunedau. Drwy adrodd straeon a rhannu profiadau, byddwn yn gallu cydweithio i lywio ein dyfodol.

## Bwrdd Plant a Phobl Ifanc

Ar y Bwrdd hwn, rydym wedi blaenoriaethu'r angen i ganolbwyntio ar atal a chymorth cynnar, er mwyn cael effaith wirioneddol ar ein dau amcan. Caiff hyn ei ategu gan ystod eang o weithgarwch partneriaeth, ac mae'r prif rai i'w gweld yn yr adroddiad hwn.

Yn Wrecsam, mae'r Bartneriaeth Atal a Chymorth Cynnar yn cwrdd i arwain ar y gwaith o ddarparu Strategaeth Atal a Chymorth Cynnar. Mae gan y Bartneriaeth drosolwg strategol o ystod o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar draws Wrecsam, a gall gymryd amser i ymchwilio i rai o'r prif heriau a chyfleoedd.

Dilynir yr un strwythur yn Sir y Fflint, ac mae'r ddwy bartneriaeth yn gweithio'n agos ar fentrau megis y Porth Lles, sy'n cynnig ffordd rwydd i bobl roi gwybod am faterion iechyd a gofal cymdeithasol a chael gafael ar wybodaeth a chymorth yn gyflym. Cafodd tîm Gwasanaethau Digidol Wrecsam eu cydnabod am y gwaith hwn, drwy ennill y Wobr Cyflawniad Digidol yng Ngwobrau Sector Cyhoeddus Granicus UK.

O dan y thema hon, mae'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc yn ceisio ychwanegu gwerth wrth i bartneriaethau geisio gweithio gydag ysgolion i liniaru tlodi plant. Yn ogystal, mae'r partneriaethau'n ceisio nodi'r gweithgareddau y tu allan i'r ysgol sydd ar gael i blant a phobl ifanc, sy'n atgyfnerthu'r Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir mewn ysgolion. Y nod yn y pen draw yw cydnabod y cyfleoedd dysgu helaeth sydd ar gael i blant ar draws Sir y Fflint a Wrecsam a bod eu cyfranogiad ynddynt yn ffordd o fagu hyder, dyhead a llwyddiant.

Arweiniwyd cynllun peilot llwyddiannus Prifysgol y Plant Wrecsam a Sir y Fflint gan Brifysgol Wrecsam yn 2022, gan ddwyn ynghyd ystod amrywiol o bartneriaid. O weithio gyda 176 o Blant a Phobl Ifanc mewn 9 lleoliad a gyda 121 o gyrchfannau dysgu yn y lle cyntaf, mae'r rhaglen bellach wedi'i hehangu ar draws Gogledd Cymru, ac yn gweithio gyda 1100 o Blant a Phobl Ifanc mewn 51 o ysgolion. Gallai'r model hwn ysgogi newid trawsnewidiol ar gyfer pobl ifanc yn y dyfodol. Cynhaliwyd seremonïau graddio ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam i nodi penllanw gwaith caled y plant a'r bobl ifanc, gydag amrywiaeth o westeion arbennig a negeseuon cadarnhaol o gefnogaeth gan fentoriaid o bob cwr o Gymru.

Arweiniwyd prosiect pontio ôl-16 ar draws Gogledd Cymru gan Goleg Cambria, er mwyn rhannu gwybodaeth am bobl ifanc sy'n newid darparwr yn 16 oed (i ysgol newydd, 6ed dosbarth neu'r coleg). Mae hyn yn caniatáu i bartneriaid gydweithio i gefnogi gwaith cynllunio er mwyn diwallu anghenion, nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o adael yn gynnar, a lleihau'r perygl eu bod am adael y system.

Yn Sir y Fflint, mae rhaglen arloesol o'r enw Camau Cefnogol wedi ymgysylltu â 142 o ddysgwyr Sir y Fflint er mwyn sicrhau eu bod yn aros ar y trywydd iawn mewn addysg, gan helpu gyda'u cynnydd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi creu swydd ymgysylltu ag ieuenctid, sy'n canolbwyntio ar iechyd, a elwir yn Tân Ffit.

Mae Swyddogion Cyswllt yr Heddlu wedi cynnal sesiynau grŵp gyda myfyrwyr Dysgu Sylfaen, yn ogystal â myfyrwyr Celf, Arlwyo, Gwallt a Harddwch, ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys sgyrsiau am Drais Domestig, Seiberfwlio, Lladrata, Dwyn o Siopau, Diogelwch Ar-lein a goblygiadau gwerthu cyffuriau.

Mae Prif Swyddogion Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam wedi arwain trafodaethau amlasiantaeth yn Tŷ Pawb, Wrecsam, fel rhan o raglen yr Academi Arweinyddiaeth Ifanc Cenedlaethau'r Dyfodol Genedlaethol. Yn dilyn rhaglen beilot lwyddiannus yn 2019 a 2021, croesawodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y drydedd garfan o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'r Academi ar gyfer pobl ifanc rhwng 18-30 oed ac mae'r rhaglen yn gyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a sesiynau dros y we, sy'n gyfanswm o tua 60-70 awr. Mae'r cyfranogwyr yn ymarfer ac yn gwella eu sgiliau arwain, a elwir yn 'Bwerau' ar y rhaglen. Cânt hefyd ddysgu arferion da o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i saith nod lles, yn ogystal â'r pum ffordd o weithio sydd eu hangen i gyflawni'r nodau.

## Cymunedau

Ar y Bwrdd hwn, rydym yn canolbwyntio ar sut y gallwn feithrin gwytnwch hirdymor a gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd yn yr hirdymor a'r argyfwng natur lle rydym ni'n byw.

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol y trydydd sector yn Sir y Fflint a Wrecsam yn arwain ar ddatblygiadau allweddol i gefnogi lles preswylwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Cysylltwyr Cymunedol a Phresgripsiynu Cymdeithasol pwrpasol.
- Rhaglenni grant y Gronfa Allweddol trwy Gronfeydd Ffyniant Bro a Chronfeydd Ffyniant Cyffredin, mewn cydweithrediad â Cadwyn Clwyd.

Er mwyn sicrhau gwell cysylltiadau a gwaith partneriaeth effeithiol, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal digwyddiadau rhwydweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a CGLlSFf. Rhannwyd mentrau a gweithrediadau presennol rhwng timau plismona cymdogaeth ac ataliol ac aelodau staff allweddol o'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol. Mae hyn wedi arwain at sawl trafodaeth bellach ynghylch sut y gallai'r Heddlu a'r trydydd sector gydweithio'n fwy effeithiol a chefnogi ei gilydd, yn gyffredinol ac ar bynciau penodol. Bu Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda Choleg Cambria, er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch Rhoi Diwedd ar Drais Dynion yn Erbyn Merched

Arweinir y prosiect 100 Stori gan BIPBC, mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth yn lleol, mewn perthynas â phrosesau trosglwyddo Gwasanaethau Iechyd Gogledd Cymru (hynny yw, trosglwyddo o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion). Gan weithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr ac (yn bwysicaf oll) y plant a'r bobl ifanc eu hunain, mae'r prosiect wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau arwain, adrodd straeon a gwerthuso sydd wedi'u profi, gan gynnwys Naratif Cyhoeddus, Cymuned Ymholi a Newid Mwyaf Sylweddol – rhoi grym a llais i'r sawl sy'n aml yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau.

Bu i rai o'r bobl sydd wedi cyfrannu at y prosiect hyd yma ymuno ag aelodau'r Bwrdd mewn sesiwn gweithdy cyfranogol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2024. Roedd hyn yn ymwneud ag edrych ar eu profiad o drosglwyddo, canfyddiadau'r prosiect, sut roeddent yn cadw at uchelgeisiau ac ymrwymiadau Cynllun Lles Wrecsam a Sir y Fflint, a'r camau syml a allai helpu i wella effeithiau'r prosiect 100 Stori.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu'r prosiect Meicro-Ofal ar y cyd â Chwmnïau Cymdeithasol Cymru, Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru a Cadwyn Clwyd. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi pobl i sefydlu fel mentrau bach (dim mwy na 6 o weithwyr) neu fasnachwyr unigol i ddarparu gofal personol uniongyrchol a gwasanaethau lles ehangach yn Sir y Fflint.

Mae'r prosiect Meicro-Ofal wedi cefnogi pobl o safbwynt cyflogaeth, gan roi cyfle i bobl gael gwaith sy'n gweddu o amgylch eu bywydau, lle bu cyfrifoldebau gofalu yn rhwystr cyn hynny. Mae'n rhoi cryn bwyslais hefyd ar les unigolion yn y gymuned. Mae gallu prynu gwasanaethau'n annibynnol neu drwy daliad uniongyrchol wedi caniatáu i bobl greu eu pecynnau cymorth eu hunain, sy'n canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf iddynt, gan sicrhau eu bod yn aros yn ddiogel ac yn annibynnol am gyfnod hirach. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n derbyn cefnogaeth, yn ogystal â'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Wedi'i hariannu drwy roddion gan sefydliadau megis GTAGC, HGC a'r diwydiant preifat, mae PentrePeryglon yn elusen annibynnol sy'n darparu gweithgareddau rhyngweithiol fel y

gall ymwelwyr ddysgu am risg mewn amgylchedd diogel. Mae PentrePeryglon yn rhoi sylw i ddiogelwch yn y cartref, diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch ar y rheilffyrdd, diogelwch dŵr, diogelwch ar y rhyngrwyd a llawer mwy, ac mae ar agor i'r cyhoedd ac ysgolion.

Eleni, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi arwain gwaith partneriaeth effeithiol i ddarparu cefnogaeth gymunedol a gwasanaethau gofal estynedig fel rhan o ymgyrch i fynd i'r afael â grŵp troseddu cyfundrefnol sefydledig a oedd yn cyflenwi cyffuriau yn ardaloedd Penycae, Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau. Daethpwyd â sefydliadau ynghyd er mwyn cynnig cymorth i breswylwyr lleol gan gynnwys y gwasanaethau tai, camddefnyddio sylweddau, cyflogaeth a gwasanaethau eraill, unwaith y bu iddynt gael gwared ar y grŵp o'r ardal. Cafodd sawl un eu harestio a chynhaliwyd patrolau ar y cyd yn dilyn yr hyn a ddigwyddodd, a oedd yn cynnwys mwy na 100 o swyddogion dros nifer o ddiwrnodau. Nid yw'r ddedfryd wedi'i phennu eto, ond mae sawl un o'r rhai dan amheuaeth eisoes wedi pledio'n euog ac roedd y gymuned leol a'i chynrychiolwyr etholedig yn falch iawn o'r gefnogaeth gymunedol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi sefydlu perthnasoedd partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag atal ac ymateb i Danau Gwyllt a Llifogydd, gan rannu arferion gorau gyda CNC ar Gynllun Rheoli Risg Cymunedol hirdymor newydd.

Daeth cymuned ymarfer amrywiol ynghyd ar gyfer Digwyddiad Presgripsiynu Cymdeithasol Seiliedig ar Natur a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Wrecsam, gan edrych ar effaith mannau gwyrdd ar iechyd meddwl a lles. Mae Coleg Cambria wedi plannu dros 1000 o goed a datblygu dolydd blodau gwyllt gan ennill achrediad caru gwenyn.

Mae Partneriaeth Coedwig Wrecsam yn dod â phartneriaid ynghyd i hwyluso rhagor o goed ac isadeiledd gwyrdd ar gyfer Wrecsam. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydlynu'r bartneriaeth er mwyn meithrin gwybodaeth ac arferion, rhannu meysydd gwaith a blaenoriaethau rhwng partneriaid a nodi meysydd ariannu, codi ymwybyddiaeth a galluogi Wrecsam i ennill gwobr Coeden y Flwyddyn y DU.

## Gweithleoedd

Ar y Bwrdd hwn, rydym yn canolbwyntio ar yr hyn y gall sefydliadau'r Bwrdd ei wneud i gael yr effaith fwyaf ar eu cymunedau drwy wirfoddoli, teithio llesol a chaffael cynaliadwy.

Mae cyfle gwirioneddol i'r trydydd sector arwain ein blaenoriaeth i ddatblygu gwirfoddoli yn y gweithle a rhannu arferion gorau, ac i sefydliadau'r Bwrdd gydweithio er mwyn trafod sut y gellir sicrhau bod gwirfoddoli yn cael effaith, gan o bosibl ddefnyddio rhywfaint o'r dysgu trosglwyddadwy meddwl trwy systemau o raglen Llunio Lleoedd Cymru. Mae dull gweithredol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, felly bydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn helpu i ddatblygu eu polisi gwirfoddoli fel cynllun peilot ar gyfer y Bwrdd.

Mae Coleg Cambria wedi arwain y ffordd yn lleol, drwy ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli gyda grwpiau lleol gan gynnwys Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a CGLlSFf a hyd yma mae 3107 awr o wirfoddoli a £35,000 wedi'i gasglu er mwyn cefnogi'r gymuned ar draws Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y rhanbarth wedi cytuno ar Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru a bydd yn newid sylweddol o ran datblygu teithio llesol. Erbyn hyn, mae nifer o bartneriaid ar ein Bwrdd wedi cytuno i gydweithio er mwyn rhannu arferion

gorau, trafod pa gymorth, adnoddau a chapasiti sydd eu hangen, sut gall y llofnodwyr gydweithio a sut gall y Bwrdd gefnogi partneriaid nad ydynt wedi ymuno eto.

Mae pa mor ynysig yw gofalwyr a phobl sy’n darparu gwasanaethau gartref yn bryder, yn enwedig wrth ddychwelyd ar ôl cyfnod i ffwrdd o’r gwaith. Rydym wedi ceisio nodi a datblygu cysylltiadau cryf rhwng gofalwyr a Meicro–Ofalwyr, fel bod modd iddynt sefydlu rhwydwaith o gydweithwyr a all gefnogi ei gilydd.

Rydym yn cydweithio gyda Diverse Cymru i godi ymwybyddiaeth ynghylch cymhwysedd diwylliannol BME (Du a Lleiafrifoedd Ethnig) yng Ngholeg Cambria. Yn ogystal, mae rhaglen hyfforddi yn cael ei llunio dan arweiniad Diverse Cymru.

Mae GTAGC yn gweithio ochr yn ochr â GanBwyll, HGC a phartneriaid eraill ar ddull sy’n canolbwyntio ar ymgysylltu ar gyfer y terfyn cyflymder newydd, sef Ymgyrch Ugain. Drwy’r rhaglen hon, mae’r Heddlu yn nodi gyrwyr sy’n teithio’n gyflymach na’r terfyn cyflymder. Mae GTAGC yn cynnig dewis amgen i bwyntiau cosb neu ddirwy drwy addysg ac ymrwymiad i ddiogelwch ar y ffyrdd, gan roi cyflwyniad 10 munud am ddim i hysbysu pobl am y newid yn y terfyn cyflymder diofyn, y rhesymau dros y newid a sut y gallant adnabod y ffyrdd lle mae’r terfyn cyflymder mewn grym.

## Hud y Bwrdd

Mae ein gwaith partneriaeth rhanbarthol yng Ngogledd Cymru yn mynd yn fwy fwy cyd-gysylltiedig, ac mae ffocws cadarn ar sut y gallwn sicrhau bod popeth a wnawn yn cael ei arwain a’i lywio gan ein cymunedau. Mae gweithio o safbwynt rhanbarthol yn helpu sefydliadau’r Bwrdd i ychwanegu gwerth at yr holl ganlyniadau lles a llywio newid parhaol ar draws ein rhanbarth a Chymru.

Trwy Bartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru, rydym wedi cydweithio i gysoni asesiadau lles a chysylltu cynlluniau lles. Ategwyd hyn gan raglen dadansoddi data newid hinsawdd, a oedd yn canolbwyntio ar sut rydym ni yn y gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio ochr yn ochr â dinasyddion i ddadansoddi a deall data. Dan arweiniad Prifysgol Wrecsam, roedd y cynllun peilot hwn o gefndir dull cynnwys y cyhoedd, yn ymwneud â dinasyddion ar draws y rhanbarth yn dadansoddi data, ac yna roedd y gwaith hwn yn llywio a datblygu’r blaenoriaethau lles. Roedd dinasyddion yn cael eu talu am eu hamser a’u harbenigedd ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu drwy ddemocratiaeth gydgynghorol a gweithio gyda phartneriaid i archwilio pecyn gwaith ar gyfer defnyddio gwahanol ddulliau o gynnwys ac ymgysylltu â dinasyddion.

Mae’r Bartneriaeth Dealltwriaeth yn rheoli cyllid cymorth rhanbarthol y Bwrdd gan Lywodraeth Cymru. Diben y cymorth hwn yw annog cydweithio ac arloesi rhwng y tri Bwrdd, ac yn sgil llwyddiant y gwaith partneriaeth rhanbarthol i greu asesiadau lles grymus, rydym wedi gweld ystod o brosiectau dysgu arloesol.

Mae’r prosiectau canlynol wedi’u datblygu yng Ngogledd Ddwyrain Cymru gyda’r bwriad o rannu’r hyn a ddysgwyd ar draws y rhanbarth wrth i ni ehangu ein harferion gorau:

Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol. Yn seiliedig ar yr egwyddor Dim Amdanom Ni, Hebom Ni, bu’r tîm prosiect yn gweithio gydag Ysgol Clywedog yn Wrecsam i ddatblygu ffordd i bobl ifanc siarad yn uniongyrchol ag arweinwyr y Bwrdd am eu lles. Mae hyn yn rhan o’r her i gynnwys Plant a Phobl Ifanc yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a symud tuag at ganolbwyntio ar anghenion cenedlaethau’r dyfodol a sut rydym yn bwydo’r ddealltwriaeth hon i’r gwaith o gynllunio, darparu a blaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus. Dan arweiniad

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ym mis Tachwedd 2022, gan alluogi sgyrsiau grymus rhwng arweinwyr ifanc gyda chydweithwyr o Betsi Cadwaladr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Phrifysgol Wrecsam.

Bwriad y prosiect yw parhau i ehangu'r cysyniad hwn ar draws y rhanbarth, a rhannu'r model ar draws Cymru. Wrth symud ymlaen, bydd nifer o ganlyniadau allweddol: gall safbwyntiau pobl ifanc fwydo'n gyflym ac yn uniongyrchol i'r gwaith o gynllunio lles, bydd atebolrwydd a thrafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal a bydd hyder a phrofiadau'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn cael eu gwella.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam wedi ymrwymo i rannu pŵer a chyfrifoldeb lle bo modd. Drwy ein prosiect Cyd-gynhyrchu Naratifau Cymunedol, rydym wedi bod yn defnyddio dulliau creadigol o ymgysylltu yn Sealand, Sir y Fflint a Tŷ Pawb yn Wrecsam. Dan arweiniad Prifysgol Wrecsam, mae'r prosiect yn golygu cydweithio'n onest fel ffrindiau a phartneriaid cyfartal i drafod sut y gall cymunedau, budd-ddeiliaid a sefydliadau cyhoeddus wella ein lles.

Dros y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid gwahanol ar draws ein rhanbarth ar nifer o brosiectau arloesol sy'n cael eu llywio gan y blaenoriaethau a'r cynlluniau lles, a rhoddwyd cryn bwyslais ar weithio gyda chymunedau. Mae'r rhaglen Dyfodol Newydd wedi bod yn gweithio gyda chwe chymuned (Larynx, Eryrod a Dreigiau, Anableddau Dysgu, Canolfan Amlddiwylliannol Tŷ Pawb, Llyfr Cymuned Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, Solocode) i alluogi sgyrsiau grymus am les, ac i arfogi'r cymunedau hynny â'r sgiliau i helpu i gymryd rhan a llunio'r cam cynllunio gweithredu. Daethpwyd â'r dysgu allweddol ynghyd drwy ffilm a digwyddiad lansio ym mis Ebrill 2023 yn Nhŷ Pawb, Wrecsam, ac mae'r tîm yn edrych ar sut y gellir ail-greu'r prosiect yng Ngorllewin Cymru.

- Mae Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Wrecsam yn ymgysylltu â grŵp o bobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ac mae'n eu cefnogi i gynllunio ac addurno Canolbwynt Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Dôl yr Eryrod, er mwyn mynegi eu hunaniaeth amrywiol, eu treftadaeth ddiwylliannol, yn ogystal â faint mae'r lleoliad yn ei olygu iddynt. Mae'r sesiynau pwrpasol bob pythefnos ar gyfer cyflawni prosiectau hefyd yn hwyluso trafodaethau ynghylch ffyrdd newydd i Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Wrecsam rannu eu hanghenion lles, datblygu gweithgareddau lles newydd a rhyngweithio gyda grwpiau ieuenctid eraill a sefydliadau lleol/ rhanbarthol perthnasol.
- Mae Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Sir y Fflint yn ymgysylltu â grŵp o bobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn Sir y Fflint, ac mae'n eu cefnogi i drefnu a chymryd rhan mewn Rhaglen Chwaraeon Amlddiwylliannol mewn clwb criced lleol. Yn ogystal â'r digwyddiad hwn, mae'r grŵp hefyd yn cael ei gefnogi i fynychu tair sesiwn ymgysylltu gyda Campfire Cymru yng Nghoed Helygain – bydd y sesiynau hyn yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau awyr agored ac yn hwyluso trafodaethau ar les, arweinyddiaeth ieuenctid a chyfnewid diwylliannol.
- Mae Mind Our Future yn gweithio gyda grŵp o bobl ifanc sydd â heriau iechyd meddwl a lles a nodwyd yn Wrecsam, ac mae'n eu cefnogi i drefnu a chynnal podlediad i drafod eu hanghenion lles ac arwain sgwrs ar syniadau newydd ar gyfer darparu cefnogaeth gyda lles yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal â'r sesiwn podlediad, cefnogir y grŵp hefyd i ddefnyddio cyfarpar recordio symudol i ddogfennu sgyrsiau lles byr mewn lleoliadau penodol yn Wrecsam er mwyn codi ymwybyddiaeth am ffynonellau cefnogaeth lleol o ran lles.
- Mae Pride Wrecsam yn ymgysylltu â grŵp o drefnwyr cymunedol LHDTC+ yn Wrecsam, mewn partneriaeth â VIVA, sefydliad trydydd sector sy'n cefnogi ieuenctid LHDTC+ yng Ngogledd Cymru. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r grŵp i gysylltu â

phobl ifanc LHDTC+ drwy drafodaethau grŵp a gynhelir yng Ngholeg Cambria a Phrifysgol Wrecsam, er mwyn datblygu syniadau newydd i atal gwahaniaethu.
- Creu a chefnogi twf canolfan amlddiwylliannol, dan arweiniad Tîm Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. Y brif her yw sut rydym yn rhoi'r gorau i ymgynghori a chael sgyrsiau parhaus. Sefydlwyd grŵp gan griw o arweinwyr amrywiol ar draws cymunedau du ac ethnig lleiafrifol, er mwyn arwain trafodaethau gyda gwasanaethau cyhoeddus, fel bod modd i ni gydweithio i lywio'r dyfodol. Mae hyn yn datblygu ac ehangu, ac rydym yn gweithio i gynnal Gŵyl Gymunedau yn 2025, ar gyfer cymunedau ledled Cymru, sy'n canolbwyntio ar iechyd, cerddoriaeth, y celfyddydau a bwyd, gydag ystod eang o bartneriaid.

Fel rhanbarth, rydym yn cyfuno ein hymdrechion trwy Bartneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru i ganolbwyntio ar ddatblygu dull arweinyddiaeth systemau a'r gallu i gyflwyno newid lle bo angen, boed hynny mewn sefydliadau neu grwpiau cymunedol, gan ddod ynghyd i rannu a dysgu. Y brif her nesaf i ni fydd cydweithio drwy'r broses asesu risg Newid Hinsawdd, er mwyn nodi'r risgiau a fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol.

Bydd hyn yn cefnogi'r asesiadau lles nesaf a bydd cynlluniau addasu trwyadl sy'n cysylltu cymunedau a phartneriaid, a bydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i ddatblygu gwytnwch. Bydd y gwaith hwn yn heriol ond bydd yn gyfle i ni ddysgu gan ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, sydd wedi cychwyn ar eu siwrnai.

## Diogelwch Cymunedol

Mae Bwrdd Pobl yn Ddiogel Sir y Fflint bellach wedi cytuno ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2024/2025:

- Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Merched a Genethod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Atal a rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn ein cymdogaethau.
- Sefydlu partneriaethau i fynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol a difrifol.
- Gwarchod ein Cymunedau.
- Er mwyn cefnogi'r holl flaenoriaethau hyn, defnyddir dull partneriaeth i fynd i'r afael â'r rhan y mae camddefnyddio alcohol a chyffuriau anghyfreithlon yn ei chwarae. Yn aml, mae camddefnyddio sylweddau yn gwaethygu ymddygiad troseddol neu'n ffactor achosol arwyddocaol.

Cafodd blaenoriaethau Diogelwch Cymunedol Wrecsam hefyd eu hadolygu yn ei Gynllun Diogelwch Cymunedol 2023 – 2026:

- Gweithio mewn Partneriaeth i Leihau Trosedd ac Anhrefn.
- Gweithio mewn Partneriaeth i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Merched a Genethod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Mynd i'r afael â Throseddu Cyfundrefnol Difrifol a Threisgar.
- Diogelu a chreu cymunedau cryf a chynnal diogelwch y cyhoedd.

Mae Bwrdd Pobl yn Ddiogel Sir y Fflint a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam wedi derbyn £57,000 a £60,000 yn y drefn honno, gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fel rhan o'r Ddyletswydd Trais Difrifol i weithio gyda phartneriaid trydydd sector ac asiantaethau statudol ar feysydd allweddol megis VAWDASV, Cydlyniant Cymunedol , Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ymysg Ieuenctid, troseddau cyllyll a chamfanteisio. Cynrychiolir Sir y Fflint a Wrecsam ar y Grŵp Llywio Trais Difrifol rhanbarthol ac maent wedi

bod yn cyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru ar gyfer atal, a lleihau trais difrifol. Fe lansiwyd y strategaeth ym mis Mehefin.

Mae Coleg Cambria wedi bod yn edrych ar Droseddau Cyllyll a materion sy'n codi o ran camddefnyddio sylweddau ar draws y siroedd. Mae'r grŵp yn cynnwys Cynghorau Wrecsam a Sir y Fflint, yn ogystal â'r Heddlu, y gwasanaethau Addysg a phartneriaid lleol eraill. Yng ngwaddol ymweliad yr Angel Gyllyll, mae Coleg Cambria, gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Wrecsam hefyd yn adeiladu Draig Gyllyll, o gyllyll a gesglir o amnestau cyllyll rhanbarthol. Bwriedir cwblhau'r gwaith ym mis Rhagfyr 2024 a bydd y cerflun yn cael ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth am effaith ddinistriol troseddau cyllyll.

Yn ddiweddar, bu i Gyngor Wrecsam dderbyn cyllid drwy Gronfa Atal Radicaliaeth y Swyddfa Gartref, a fydd yn galluogi cynnig gweithdai rhanbarthol i bobl ifanc 16+ oed a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae Wrecsam hefyd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth am drais yn y cartref drwy ddigwyddiadau amrywiol a bu iddynt lansio eu hymgyrch Cadw Eich Calon yn 2023. Mae calonnau coch wedi'u dosbarthu ledled y sir, ac mae cod QR wedi'i argraffu arnynt, sy'n eich arwain at wybodaeth am y gwasanaeth cefnogaeth ar gyfer trais domestig.

## Myfyrio

Ers cyhoeddi ein cynllun lles dros flwyddyn yn ôl, rydym wedi bod yn canolbwyntio fwy fwy ar effaith ein partneriaeth strategol, a sut y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu fel catalyddion i alluogi cymunedau, partneriaid, budd-ddeiliaid a busnesau i arloesi, trafod eu lles a datblygu eu gwytnwch. Gall tirweddau partneriaeth fod yn gymhleth, gan alluogi math gwasgaredig o arloesi cymdeithasol a all fod o gymorth i gysylltu dinasyddion a chymunedau.

Fodd bynnag, mae yna nifer o heriau:

- Mae galw cynyddol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fel partneriaethau strategol nid oes ganddynt lawer o adnoddau. Bydd yn cymryd amser i sicrhau newid systemig ar draws eu sefydliadau.
- Mae cwblhau Asesiad Risg Newid Hinsawdd a rhaglenni gwaith tebyg yn gofyn am arbenigedd ac amser swyddogion. Mae angen i ni fynd i'r afael â newid hinsawdd ar frys ac yn rhanbarthol, gan ddefnyddio cyd-ddoethineb Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Gogledd Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'n cymunedau amrywiol.
- Er bod y Bwrdd yn gyfle gwych i ddwyn ynghyd y bobl gywir, ac i gysylltu â phartneriaethau eraill, mae risg gynhenid o beidio ag ehangu cyfranogiad ar draws sefydliadau. Felly, pan fyddwn yn colli cydweithiwr egnïol, mae'n cymryd amser i'r olynydd ymgyfarwyddo â'r gwaith.
- Gyda phwysau cyllidebol yn parhau, ein bod yn cadw ffocws hirdymor ar wella lles a chyflawni ein hamcanion. Mae'n rhaid i'r Bwrdd gael ei ystyried fel man diogel i gyrff sector cyhoeddus drafod materion a chydweithio – mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cydweithio. Bydd ymrwymiad cyson a phenodol i ddiogelu gwasanaethau atal a chymorth hefyd yn lleddfu'r pwysau ar ymyriadau statudol costus.
- Mae yna fwlch o ran ymwybyddiaeth o beth yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r hyn maent yn gallu ei gyflawni. Ar ei orau, bydd yn gatalydd ar gyfer cymunedau a phartneriaid i arloesi a chanfod datrysiadau ar y cyd. Dyma pam nad oes gennym logo a gwefan o'r brig i lawr fel sy'n arferol, fel bod modd i ni ymgysylltu a rhannu data yn well ar y cyd yn y dyfodol a meithrin dealltwriaeth i gefnogi'r cynlluniau lles a'r gwaith partneriaeth rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru. Mae Partneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru yn datblygu llwyfan ar gyfer ymgysylltu rhanbarthol.

Dan arweiniad Prifysgol Wrecsam, bydd y prosiect hwn yn cynnwys gweithdai gyda chymunedau a chreu cyfleoedd i ddylunwyr a phobl greadigol lleol gymryd rhan, a bydd yn cyd-fynd ag amcan Data Cymru i ddatblygu pyrth data clir ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnwys y bobl maent yn eu gwasanaethu a chlywed y cymysgedd amrywiol o leisiau yn eu cymunedau. Fel rhanbarth, rydym yn ceisio defnyddio mwy o ffyrdd newydd i gynnwys ein cymunedau. Ac o ganlyniad uniongyrchol i'r ymgysylltu hwn, rydym yn gweithio gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i gysylltu'r Cyn-arweinwyr Ifanc gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam, fel cyfeillion beirniadol. Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 3.0 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sylweddoli bod crynhoad o gynghreiriau rhanbarthol ar gyfer newid/mudiadau cymdeithasol a ffyrdd newydd o weithio, ond mae hynny'n rhywbeth newydd ac nid oes llawer o adnoddau.
- Fel partneriaethau strategol, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu fel lle i arweinwyr, cydweithwyr a chymunedau wrando a chael trafodaethau gonest. Yna, bydd angen iddynt herio, newid a chefnogi eu sefydliadau drwy ymchwil, data a dealltwriaeth, fel bod modd i sefydliadau ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn ymarferol ym mhopeth a wnânt.

## Ein Camau Nesaf

Mae angen i ni sicrhau bod ein Bwrdd yn canolbwyntio ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar ein siwrnai hyd yma. Fel partneriaeth strategol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar yr hirdymor, ymhell y tu hwnt i oes y cynlluniau lles unigol, wrth i ni gydweithio i ddatblygu lles, gwytnwch a ffyniant ein cymunedau.

Dyma ein camau allweddol nesaf:

- Parhau i gefnogi Partneriaeth Dealltwriaeth Gogledd Cymru wrth i gydweithwyr ddatblygu, profi a defnyddio ffyrdd grymus o weithio gyda chymunedau a rhannu'r hyn y mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei wneud i hyrwyddo ac annog buddsoddiad cymunedol yn ein cynllun lles.

- Cefnogi'r gwaith rhannu a chysylltu parhaus ar draws ein rhanbarth. Drwy feithrin cymunedau ymarfer cadarn drwy ddigwyddiadau megis C4C Gogledd Cymru neu drwy rannu data a dealltwriaeth y byddwn yn galluogi cyfranogiad ac arloesedd gwirioneddol.

- Defnyddio dull arweinyddiaeth systemau i newid sut rydym yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gymunedau. Bydd y rhaglen Llunio Lleoedd newydd i Gymru yn ffordd arwyddocaol i ni feithrin gallu a pharhau i arloesi a bod yn barod ar gyfer yr heriau cymdeithasol mawr sy'n wynebu ein rhanbarth.

- Cyflawni newid. Mewn gwirionedd, mae effaith yn bwysicach nag arloesi ar ei ben ei hun. Fel partneriaeth strategol, gall Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam fod yn gatalydd i ymagwedd cymdeithas ddinesig gyfan gyda busnesau, dinasyddion a sefydliadau cyhoeddus yn nodi materion ac yn cydweithio i'w datrys. Mae Prifysgol y Plant yn dempled gwych ar gyfer hyn.

Golygwyd gan Michael Cantwell a Nicola McCann

Mehefin 2024

**Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam**

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam - Dawn Roberts McCabe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Michelle Greene, Ceriann Tunnah
- Coleg Cambria - Sue Price, Steve Jackson
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Tony Potter
- Cyngor Sir y Fflint - y Cyng. Ian Roberts, Neal Cockerton, Neil Ayling
- Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint - Ann Woods
- Cyfoeth Naturiol Cymru - Lyndsey Rawlinson, Mark Hughes
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Justin Evans, Anthony Jones
- Heddlu Gogledd Cymru - Jonathan Bowcott, Emma Cater
- Llywodraeth Cymru - Steven McGregor
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - y Cyng. Paul Roberts, Ian Bancroft, Karen Evans
- Prifysgol Wrecsam - Nina Ruddle